OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2468 (Cy. 237)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ty’n-y-maes i Riw Staerdywyll, Corris, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder o 30 MYA Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Medi 2014* |
| *Yn dod i rym* | *15 Medi 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i’r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Medi 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ty’n-y-maes i Riw Staerdywyll, Corris, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder o 30 MYA Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn hwnnw o gefnffordd yr A487 yn Sir Gwynedd sy’n ymestyn o bwynt 370 o fetrau i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4405, i’r gogledd o’r annedd o’r enw Ty’n-y-maes, hyd at bwynt 130 o fetrau i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â’r Ffordd Sirol o’r enw Rhiw Staerdywyll;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 yn weithredol.

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Medi 2014

***R Morgan***

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.